

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Chwefror 12fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng. Megan Roberts, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr Megan Roberts (Cadeirydd), Emlyn Jones, Mary Ellis, Alan Owen, Dafydd Roberts, Ann Roberts, Gareth Moore (Is – gadeirydd) a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau** - Ruth Roberts, Wyn Hughes Delyth Jones a Lewis Davies
Cyng. Ward Seiriol - Alwyn Rowlands, Carwyn Jones
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed o Ionawr, fel rhai cywir gan Cyng. G Moore ac eiliwyd gan Cyng. E Jones.
Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 4.1 **Palmant Tros yr Afon** – Clerc i anfon llythyr i Mr Geoff Owen.
 - 4.2 **Sgwâr Tawelfan** - dim newyddion ymhellach. Cyng. G Moore i drafod y plannu ayyb gydag Ysgol Gynradd.
 - 4.3 **Wefan y Cyngor Cymuned** – Clerc i anfon y linc i'r Cynghorwyr.
 - 4.4 **Sedd Warchodfa Bws** – wedi ei osod.
 - 4.5 **Parcio yn Adwyr Nant** – Car oedd wedi parcio yna, wedi ei symud.
 - 4.6 **Niwed i Giatiau'r Eglwys** - Clerc wedi ymgynghori a Mr A Owen, lle mae wedi penderfynu talu 80% (£360) o'r gost. Nid yw'n cytuno i dalu'r gost o beintio'r giât arall. Clerc i gysylltu ar gwmni i wneud y gwaith.
 - 4.7 **Arwydd wedi troi ger mynedfa i'r Warchodfa** – Eglurodd y Clerc oherwydd y gost uchel mae'r Cyngor Sir yn mynd i ddod o amgylch yr ardal i atgyweirio'r arwyddion.
 - 4.8 **Giât ar lwybr troed Gwelfor** - Cyng. L Davies i drafod y mater gyda swyddogion Ardal o Harddwch y Cyngor Sir.
 - 4.9 **Rheolau presenoldeb mewn cyfarfodydd** - Clerc yn darllen allan Canllaw Cynghorydd da - "byddwch yn dod i ben yn awtomatig fel cynghorydd os da chi yn methu a mynychu cyfarfodydd am chwe mis oni bai bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rheswm dros yr absenoldeb cyn diwedd y chwe mis"
5. **Datgan Diddordeb**
 - Cyng. A Owen a G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
 - 35C312 – Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o'r annedd presennol, ynghyd ac addasu ac ehangu yn Hafod, Llangoed – dim sylwad.
 - 35C313 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Carreg Wen, Penmon - dim sylwad.
 - 35C315 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir i fod yn rhan o'r ardd ynghyd a chreu man parcio yn Bodfeurig, Llangoed - dim sylwad.
 - 35C314 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i lety gwyliau yn Bwthyn Felin, Llangoed - dim sylwad.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
Clerc yn adrodd ar ran Cyng. L Davies:-
 - 7.1 Wedi cael cwyn ynghlyn a thyllau ar lwybr y Warchodfa ger y Wern ac wrth Glan Llyn.
 - 7.2 Wedi cael cwyn gan Ann Sutton, Pen y Berth, sydd yn poeni fod y coed ar y tir comin ger y tŷ yn beryglus iawn i'w heiddo mewn gwyntoedd uchel. Clerc i gael pris i wneud y gwaith.
8. **Neuadd y Pentre'**
Cyng. A Owen a G Moore yn adrodd:-
Apêl leol wedi ei ddechrau i godi arian ar gyfer atgyweirio'r nenfwd. Un dyfynbris wedi dod i law am £15,000, ond fydd angen dau ddyfynbris arall cyn trio am unrhyw grantiau. Cais am unrhyw grant yn cymryd tua blwyddyn i droi rownd. Un syniad yw atodi taflenni ply i'r nenfwd sydd wedi cael ei gostio tua £2,000.

Dilyn trafodaeth am gais gan Pwyllgor y Neuadd am rodd tuag at y gost, cynigwyd £1,500 gan Cyng. M Roberts, eiliwyd gan Cyng. E Jones, pawb yn gytûn.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 11/02/14 – Simon Hunt, Ruth, Emlyn ar Clerc.

- Disgwyl manylion contract GLASTIR, rhagorol ers mis Ionawr.
- Leah wedi gadael Menter Môn, wedi cael swydd arall yn y Wyddgrug. Clerc wedi cysylltu â Gerallt Jones gan ofyn pwy fydd y swyddog newydd yn yr ardal hon? Disgwyl ymateb. Clerc i anfon cerdyn o ddiolch i Leah.

10. Cyfrifon

Clerc yn rhannu pecyn gan egluro incwm a gwariant chwarter 3.

Taliadau, penderfynwyd talu:-

Griffiths Agricultural – mainc warchodfa bws - £228.00

Neuadd y Pentre' - rhodd £1,500

Incwm

Grant Cyngor Sir at Wefan - £500

Mr A Owen - gost at atgyweirio giât Fynwent y Plwyf - £360

11. Gohebiaeth

Llythyr - Cofnodion grŵp ffocws Cyngor Sir 23/1/14

Llythyr – Cyngor Sir, enwebiadau ar gyfer anrhydeddau 2015

Llythyr - D Williams, Neuadd y Pentre'

Llythyr – Cylchlythyr Gaeaf 2013/14

Llythyr – Cyngor Sir, Hyfforddiant Cod Ymddygiad i aelodau

Pecyn - Dan Do Môn

Apêl – NSPCC

Apêl - Eisteddfod Môn Ynys Cybi 2014

Apêl – Walk for Life

12. UFA:

12.1 Hawlfraint Treffos - dilyn cyfarfod cyhoeddus gan Rhun ap Iorwerth, mae'n edrych yn debygol iawn fod Stephen Hayes ddim yn mynd ymlaen gyda'i gais.

12.2 Manylion Maes Chwarae Plant - Cyng. D Roberts wedi adnabod cyswllt Mr Nigel Black, sydd yn aelod Pwyllgor Maes Chwarae Plant Thomas Close. Clerc i gysylltu.

12.3 Cyng. D Roberts - llwybr "Rocky Lane" ym Mhenmon, mwsog yn gwneud y llwybr yn beryglus iawn. Hefyd llwybr 24 Twr Garw i'r Wern, nifer o goed wedi disgyn yn y gwynt.

12.4 Bydd surgery nesaf yr Heddlu ar 6/03/14 am 3.15 tu allan i'r Ysgol Gynradd, i drafod unrhyw faterion.

12.5 Cyng. M Roberts - yn adrodd fod nifer o dyllau ar y ffordd yn Coedwig Terrace Penmon, a hefyd tyllau ar y llwybr troed tu cefn i Penmarian Mawr.

12.6 Clerc yn egluro bod y Cyngor Sir yn symud at gyfathrebu electronig a bydd rhaid edrych ar ffyrdd eraill o gyflwyno ceisiadau cynllunio yn y dyfodol.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 8.20 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 12/03/14.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad